

Trwy ebost

08/03/2018.

Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru: BGC Cwm Taf

Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a swyddogion cynorthwyol,

Diolch am ofyn am fy nghyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion llesiant drafft.

Darganfu fy nhîm bod siarad yn gyson â'ch swyddogion cynorthwyol, cael y cyfle i fynychu cyfarfodydd cynllunio a mynychu'r Bwrdd Partneriaeth Strategol yn ddefnyddiol iawn ar gyfer deall sut yr ydych yn gweithio gyda'ch gilydd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a'r dull yr ydych wedi ei fabwysiadu at gyfer cynllunio llesiant a'ch bwriad i gyflawni'r amcanion hyn a gweithredu mewn dull gwahanol. Fel y byddant wedi ei drafod gyda chi, roeddwn yn awyddus i fy nghyngor fod yn ddefnyddiol i chi a'r cyd-destun yr ydych yn gweithio o'i fewn, felly gobeithio eich bod chithau hefyd o'r farn bod y cysylltu cyson rhyngom wedi bod yn ddefnyddiol a'i fod wedi rhoi peth arweiniad i chi ar hyd y ffordd.

Diolch am anfon dolen i'ch cynllun drafft llesiant yn ddiweddar; rwy'n seilio'r cyngor hwn ar yr amcanion drafft a'r camau yr ydych wedi eu pennu hyd yn hyn. Mae fy nghyngor mewn dwy ran – y gyntaf, i'ch helpu i ystyried sut y gallech ddefnyddio'r pum dull o weithio i herio busnes-fel-arfer a macsimeiddio'u cyfraniad tuag at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol yn effeithiol. Mae'r ail, yn seiliedig ar eich blaenoriaethau, yn rhoi anogaeth, adnoddau a chysylltiadau i'ch helpu i ddangos drwy eich cynllun llesiant eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio a'r saith nod llesiant i lunio eich camau. Nid rhoi fy marn ar eich amcanion llesiant yw pwrpas y cyngor hwn. Mae'r rhain i'w penderfynu a'u perchenogi gennych chi, fel BGC cydweithredol.

Buaswn yn eich annog i ddarllen hwn ynghyd â'm hymateb i'ch asesiad llesiant. Roeddwn yn awyddus iddo 'edrych ymlaen' yn hytrach nag 'edrych yn ôl', a'ch helpu i ystyried sut i fynd i'r afael ag asesu a chynllunio llesiant yn barhaus. Fel y gwyddoch, yn ddiweddar cyhoeddais '[Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory](#)' sy'n amlygu canfyddiadau allweddol ac argymhellion ar gyfer BGCau a chyrrff cyhoeddus ar feysydd allweddol lle mae angen newid ar gyfer gwneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bwriedir hefyd i'r ddau adnodd hwn weithredu fel cyngor i chi.

Gwelaif eich bod wedi defnyddio model rhesymeg i ddatblygu eich amcanion drafft o ganfyddiadau eich asesiad, sef:

- **Hybu cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus a fydd yn gwella llesiant trigolion ac ymwelwyr ac yn adeiladu ar ein hasedau cymunedol.**



- a. Datblygu Parthau Cymunedol fel ymagwedd ardal neu ymagwedd seiliedig ar le gan ffocysu cymorth ar wella canlyniadau i'n trigolion â'r heriau mwyaf.
 - b. Byddwn yn gweithio'n wahanol gan ennyn ymgyfraniad ein cymunedau a chynyddu gwirfoddoli lleol.
 - c. Gweithio gyda'n cymunedau i ddarparu negeseuon cyson a chysylltiadau ac arwyddion i'r gymuned, y sector cyhoeddus a chefnogaeth i fusnes o fewn, ac yn agos at gymunedau.
 - d. Gweithio gyda chymunedau a chynorthwyo cymunedau sydd yn dymuno rheoli a gwella eu hamgylchedd lleol.
 - e. (Y tymor canolig) gwirfoddolwyr cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyd-gysylltu'n dda, gyda chymunedau sy'n wybodus am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac sy'n ffynnu.
 - f. (Y tymor canolig) Amgylchedd diogel a dymunol a manau agored gwyrdd, lle mae pobl yn falch i fyw ynddynt a chyfranogi.
 - g. (Yr hirdymor) Cymunedau'n llunio gwasanaethau i gwrdd ag anghenion trigolion ac ymwelwyr.
- **Helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau.**
 - a. Targedu ein cymorth ar yr ardaloedd â'r heriau mwyaf gan weithio gyda'n cymunedau i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle gorau i fyw bywydau hir a hapus.
 - b. Gweithio gyda'n gilydd fel gwasanaethau cyhoeddus a gyda'n cymunedau i leihau lefelau gordewdra.
 - c. Hybu ffyrdd iach o fyw drwy annog pobl i fabwysiadu ymagwedd 'un ymddygiad iach ychwanegol' tuag at yr holl staff a defnyddwyr gwasanaethau.
 - d. (Y tymor canolig) Lleihau bregusrwydd ein poblogaeth sy'n heneiddio drwy gynyddu'r cyfraddau o'r boblogaeth â ganddynt 4 neu 5 ymddygiad iach i 20%.
 - e. (Yr hirdymor) Gwella cyfraddau disgwyliad oes iach a disgwyliad oes yng Nghwm Taf i gyfartaledd Cymru.
 - **Tyfu economi lleol cryf gyda thrafnidiaeth gynaliadwy sy'n denu pobl i fyw, gweithio a chwarae yng Nghwm Taf.**
 - a. I wneud y gorau o gyfleoedd buddsoddi a manteision £1.299 biliwn Bargen Ddinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd a'r Metro, yn lleol ac o fewn Cwm Taf.
 - b. Cynyddu a hybu twristiaeth gan ddefnyddio asedau ein hamgylchedd naturiol prydferth, ein treftadaeth a'n diwylliant ar gyfer hybu iechyd a ffyniant a bod o fudd i'r gymuned gyfan, ac ochr yn ochr â datblygiad Parc Tirweddau'r Cymoedd.
 - c. Annog a hybu dyheadau ein pobl.
 - d. Datblygu Cynllun Prentisiaid, Graddedigion a Chyfleoedd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf mewn ymateb i strategaeth cynllunio gweithlu gwasanaeth cyhoeddus integredig ar y cyd.
 - e. Archwilio ymhellach y cyfleoedd ar gyfer tai cynaliadwy a datblygiadau ynni adnewyddol gydag arian cymunedol cysylltiedig.



- f. Datblygu a darparu Cynllun Marchnata'r Cymoedd, gan hybu ein Cymoedd fel man i fyw, gweithio a chwarae ynddynt.
- g. (Y tymor canolig) Annog cyfleoedd ar gyfer datblygu ac adnewyddu wrth i'r Fargen Ddinesig ddarparu swyddi ac elw ar ei fuddsoddiadau, yn cynnwys denu gwestai.
- h. Cynorthwyo datblygiad economi glân.
- i. (Yr hirdymor) Economi cynaliadwy, egnïol sy'n ehangu, gyda chyfraddau cyflogaeth yn gyfartal â chyfartaledd y DU.
- j. (Yr hirdymor) Diwydiant twristiaeth bywiog sy'n denu pobl o bell ac agos i fwynhau ein hamgylchedd naturiol, ein hanes a'n diwylliant.

Credaf fod fy nhîm eisoes wedi bod yn ddefnyddiol wrth gynghori eich swyddogion cynorthwyol ar eich ymagwedd. Ni fwriedir i'ch amcanion a'ch camau gynnwys pob un o flaenoriaethau corfforaethol eich sefydliad, ond fe'i bwriedir i'ch helpu i ddefnyddio eich asesiad llesiant i ystyried ble fedr y BGC gael effaith ar y cyd sy'n bwerus. Rhoddodd eich asesiad llesiant adlewyrchiad cyfoethog o fywydau pobl, eu hamgylchoedd a chyflwr eu llesiant. Yn fy ymateb i'ch asesiad llesiant cynghorais chi i gysylltu ymhellach â'r nodau llesiant wrth i chi symud tuag at gynllunio. Teimlaf fod eich cynllun llesiant drafft ar hyn o bryd yn adlewyrchu'n dda yr agwedd tuag at lesiant cymdeithasol ac iechyd a welwyd drwy gydol eich asesiad, ond rhaid i amcanion facsimeiddio eu cyfraniad tuag at y saith nod llesiant ac mae angen i chi ddangos sut yr ydych yn mynd i'r afael â phob agwedd o lesiant yn y camau yr ydych yn eu cymryd.

I wneud hyn mae angen i chi feddwl yn wahanol, bod yn uchelgeisiol ac ailfeddwl am y modd yr ydych yn defnyddio adnoddau, a fydd yn anochel yn golygu rhoi'r gorau i rai pethau. Mae angen i chi ddangos eich bod wedi archwilio'r modd yr ydych yn cyfrannu tuag at nodau llesiant a bydd hyn yn rhoi i chi ddarlun mwy holistig o'r mater yr ydych yn ceisio ei ddatrys, yn egluro eich rolau fel sefydliadau sy'n aelodau o'r BGC a'ch galluogi i facsimeiddio'r ystod o adnoddau a chyfleoedd y gallwch fanteisio arnynt i'ch helpu i ddod o hyd i ddatrysiadau.

Mabwysiadu gwahanol ddulliau o weithio i gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:

Nid busnes-fel-arfer yw gosod amcanion a chmau. Yn y gorffennol, rydym wedi gwneud hyn beth bynnag, hynny yw, wedi dibynnu ar themâu a blaenoriaethau ac wedi ysgrifennu cynlluniau sy'n dangos beth yr ydym yn ei wneud. Mae gwireddu uchelgeisiau'r Ddeddf yn ymwneud â 'beth' ac â 'sut', hynny yw, beth ydych yn ei wneud i gyfrannu tuag at ein gweledigaeth gyfunol o'r saith nod llesiant cenedlaethol? Mae'r nodau'n cydnabod bod datblygu cynaliadwy'n cysylltu'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, yr economi yr ydym yn gweithio ynddo, y gymdeithas yr ydym yn ei mwynhau a'r diwylliannau yr ydym yn eu rhannu â phobl ac ansawdd eu bywyd. Felly beth ydych chi'n mynd i wneud gyda'ch gilydd sy'n wahanol? A sut ydych chi'n defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio eich gweithgareddau ar gyfer Cwm Taf? Sut ydych chi'n mynd i weithio'n wahanol gyda'ch gilydd?

Mae'n bwysig i ddangos sut mae eich amcanion a'ch camau, yn unigol ac fel set, yn maxsimeiddio eu cyfraniad i **bob un o'r nodau llesiant**, felly buaswn yn eich annog i barhau i ddatblygu'r cysylltiadau rhwng amcanion wrth gytuno ar eich camau a'u cyflawni.

Mae addasu eich dulliau o weithio yn gofyn am ymagwedd sydd yn ei hanfod yn wahanol. Mae'n braf i glywed eich bod wedi nodi eich bod yn dymuno i'ch BGC gydweithio gyda'r bwriad o roi pobl eich cymunedau yn y canol, ynghyd ag uchelgais i chwalu'r rhwystrau rhwng gwasanaethau cyhoeddus i newid y ffordd yr ydych yn gweithio. Mae hyn yn gofyn i chi fod yn eofn a dewr wrth gwestiynu strwythurau llunio penderfyniadau presennol a darpariaeth ymarferol. Rwyf wedi cynghori pob BGC i neilltuo amser a gofod i gwestiynu a yw eu hymagweddau presennol tuag at ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol ac archwilio pwysau a thensiynau wrth gyflwyno pob un o'ch amcanion. Mae [Pensaerniaeth Dyfodol Cynaliadwy](#), Academi Cymru'n dweud yn glir sut mae angen i ymddygiad arweinyddion newid. Gallech ddefnyddio'r fframwaith hwn i'ch helpu i archwilio ymddygiadau eich bwrdd chi eich hunain a sut y gallwch ddatblygu.

Dywedodd fy nhîm wrthyf sut yr ydych yn ymroi i roi cynnig ar ddulliau newydd o weithio, megis uwch arweinyddion yn ymrwmo i dreulio amser mewn cymunedau i wrando ar farn pobl. Cefais fy nghalonogi i glywed eich bod eisoes yn cynnal y sgrysiâu hyn fel BGC am y modd y gallwch weithio'n wahanol. Fodd bynnag nid yw'n glir sut mae'r hyn yr ydych yn cynnig ei wneud drwy eich amcanion a'ch camau yn cynrychioli'r newid allweddol sydd ei angen ar gyfer cwrdd â dyheadau'r Ddeddf, ac yn wir eich amcanion chi eich hunain. Rydw i felly'n gofyn i chi ystyried ymhellach ymagweddau newydd eraill y byddwch yn eu mabwysiadu gyda'ch gilydd yn y camau y byddwch yn eu cymryd i gwrdd â'ch amcanion a maxsimeiddio eich cyfraniad tuag at y saith nod llesiant cenedlaethol. O safbwynt eich cynllun llesiant, buaswn yn hoffi deall sut mae'r pum dull o weithio wedi llunio eich ymagwedd, sut yr ydych wedi ystyried y cyfraniad yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd (ac y gallech ei wneud) i bob un o'r nodau llesiant, mewn perthynas â phob un o'r amcanion drafft a'r camau yr ydych yn eu gosod. Beth a olyga hyn i Gwm Taf a sut mae'n wahanol i'r hyn yr ydych wedi ei wneud yn y gorffennol?

Buaswn yn eich cynghori y bydd angen i chi ddangos sut mae'r BGC wedi ystyried y canlynol mewn perthynas â phob un o'ch amcanion:

- **Hirdymor:** Beth yw eich dealltwriaeth o dueddiadau hirdymor, cyfleoedd, peryglon a senarios tebygol ar gyfer y mater hwn? Beth ydynt, ac a ydych wedi archwilio eu heffaith ar eich gweithredu? Oes yna fylchau ar hyn o bryd yn eich data neu eich dealltwriaeth? Beth sydd angen ei weld ymlaen llaw neu pa wybodaeth am dueddiadau yn y dyfodol sydd eu hangen arnoch i ddeall y mater hwn yn well? Pa allu, hyder ac arbenigedd sydd arnoch eu hangen i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth? Efallai y byddwch yn dymuno ystyried datblygu senarios y dyfodol neu ddefnyddio dulliau eraill i'ch helpu i fframio eich amcanion a'ch gweithredu ar gyfer y dyfodol. Gall y rhain fod yn hynod bwerus ar gyfer cychwyn trafodaeth am y cyfleoedd a'r risgiau a'r gweithredu y gallwn ei gyflawni ar gyfer yr hirdymor.



I drwytho'ch gweithredu, bydd angen i chi fapio ac ystyried tueddiadau'r dyfodol yn ddigonol ar gyfer pob un o'ch nodau. Mae fy swyddfa yn gweithio gydag eraill i adeiladu gallu yn y maes hwn, ac fel y gŵyr eich tîm cynorthwyol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ychwanegu at adnoddau'r adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol', y dylech fanteisio arno i'r eithaf ac sydd ar gael drwy 'Objective Connect' a thrwy gysylltu â David Thomas. Mae adroddiad [Ysgol Oxford Martin 'Now for the long-term'](#) yn dangos tueddiadau'r dyfodol yn fyd-eang a chenedlaethol, tueddiadau y bydd angen i ni i gyd ymateb iddynt wrth weithredu datblygu cynaliadwy.

- **Atal:** Wrth ystyried y mater hwn, oes gennych chi ddealltwriaeth o'r hyn yr ydych yn ceisio ei atal? Beth sydd wrth wraidd y mater a phryd fyddai'r amser gorau i ymyrryd? Ydych chi'n glir am ba fath o atal sydd ei angen: atal sylfaenol h.y. ceisio atal rhywbeth rhag digwydd; atal eilaidd h.y. atal rhywbeth rhag gwaethygu; neu atal trydyddol h.y. lliniaru effaith rhywbeth â ganddo effeithiau parhaus. Dyma'r gwahaniaeth rhwng annog rhywun i wisgo helmed feicio (atal niwed i'r pen cyn iddo ddigwydd); gosod rhywun yn yr ystum adferol os yr ydynt wedi syrthio oddi ar eu beic (atal eilaidd, sef atal niwed rhag gwaethygu) a chwmsela yn dilyn y ddamwain (atal trydyddol i helpu anafiadau parhaus rhag gwaethygu).

Sut ydych chi'n defnyddio eich tystiolaeth leol i ddeall y mesurau atal mwyaf effeithiol? Bwriad canllaw [NESTA and Alliance for Useful Evidence guide](#) yw helpu cyrff cyhoeddus i ddefnyddio ymagweddau casglu tystiolaeth i drwytho eu penderfyniadau. Mae llawer o FGCau heb ddefnyddio'u hasesiadau i ddeall yn drwyadl y sefyllfa bresennol a graddfa a natur yr ymateb sy'n ofynnol. Rwy'n gwerthfawrogi nad ydych eto'n gwybod beth yw'r darlun cyfan, ond hoffwn weld pob BGC yn archwilio sut y maent yn chwalu cylchoedd a thwrio'n ddyfnach i mewn i ddata i weld y negeseuon sydd ymhlyg yn y data i ddeall yn well achosion ac effeithiau materion allweddol a thueddiadau, i drwytho eich camau.

- **Cydweithio:** Rydw i'n argymhell yr amser a neilltuir gan eich swyddogion cynorthwyol i weithio ar draws ardal Cwm Taf a'ch ymagwedd sy'n annog gweithio ar y cyd mewn gweithdai ar gyfer datblygu eich amcanion. Rydych yn parhau i fod yr unig FGC yng Nghymru sydd wedi cyfuno, a gwn fod eich swyddogion yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Rydw i'n dweud wrth bob BGC ei bod yn bwysig bod y bobl sy'n eistedd o gwmpas bwrdd y BGC yn medru dwyn mewnwelediadau, her adeiladol, data a datrysiadau i'r BGC a'r is-grŵp (BSP). Mae yna bartneriaethau cryf yng Nghwm Taf, ond buaswn yn eich cyngori i dreulio amser i ystyried a yw eich strwythurau cyfundrefnol yn addas ar gyfer y diben, ac mae eich penderfyniad i adolygu termau cylch gorchwyl yr BSP ar ôl i'r cynllun llesiant gael ei fabwysiadu yn rhoi cyfle i chi gychwyn gwneud hyn. A yw'r bobl iawn gennych o gwmpas y bwrdd, ar y lefel iawn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y mater hwn? Pwy arall allai fod arnoch ei angen i gydweithio gyda chi i'ch helpu i ddeall hyn yn well? Fel yr argymhellwyd yn fy adroddiad ar yr Asesiadau Llesiant, mae hwn yn amser da i adolygu aelodaeth wahoddedig y BGC ac ystyried pwy yw'r bobl 'anarferol' y gall y bydd angen i chi weithio gyda hwynt i gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn?

Wrth gyflawni'r camau hyn, dylech archwilio i weld sut y gallai eich sefydliadau gydweithio'n well. Bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC yn ystyried y camau sydd angen eu cymryd ar y cyd ar draws ffiniau cyfundrefnol er mwyn cwrdd yn effeithiol â'ch amcanion. Gallai hyn gynnwys adleoli staff, chwalu strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau, ac, o'r pwys pennaf, grynhoi adnoddau. Byddaf yn dymuno gweld sut yr ydych chi wedi symud tuag at wireddu'r cydweithio hyn.

- **Integreiddio:** Ar gyfer pob amcan, sut ydych chi'n mynd i symud i ffwrdd o'r arfer o ddim ond gwneud rhywbeth sy'n cwrdd â'r amcan, ac yn hytrach, dangos eich bod yn cymryd camau sy'n magsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau? Roeddwn yn falch i glywed bod eich trafodaethau wedi cychwyn ystyried y rhyng-gysylltu rhwng yr amcanion sy'n dod i'r amlwg ac sy'n helpu i drwytho eich penderfyniadau am y camau mwyaf effeithiol y gallech eu cymryd a buaswn yn eich annog i barhau i wneud hyn mewn dull bwriadol ac eglur. Yn hytrach nag edrych ar y mater mewn dull traddodiadol, cyffredinol, ydych chi wedi edrych ar y diffiniad ar gyfer pob un o'r nodau i ehangu eich dealltwriaeth o lesiant ar gyfer y mater hwn a'r cyfleoedd a allai fod ar gael ar gyfer cwrdd â'r nodau hyn drwy bob un o'ch nodau? Pa mor dda ydych chi'n deall y cyfraniad a wneir gan eich sefydliad ar hyn o bryd i'r amcan hwn? Ac a ydych chi'n deall pa mor wahanol yw'r cyfraniad sydd angen i chi ei wneud i ddwyn yr amcan hwn yn ei flaen?

Sut fedrwch chi gynllunio'r hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill yn eich sefydliad, y strategaethau a'r cynlluniau ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol, i gysylltu ag eraill wrth gyflawni'r nod hwn? Mae fy nhîm wedi siarad yn gadarnhaol am eich ymagwedd tuag at gydweithio rhanbarthol a bydd gennyf wir ddiddordeb mewn deall manteision gwneud hyn wrth i ni symud tuag at gyflawni cynlluniau llesiant. Fel BGC, ydych chi eto wedi cydnabod y rhwystrau a'r tensiynau sydd wedi codi rhwng sefydliadau sy'n aelodau a pha gamau y gallwch chi (neu eraill) eu cymryd i'w dileu? Pwy arall sydd ei angen o gwmpas bwrdd y BGC i'ch helpu i gydgyssylltu'r broses o wneud penderfyniadau a gwella llesiant ar gyfer y mater hwn?

- **Ymgyfraniad:** Canmolais eich dulliau o ennyn ymgyfraniad pobl yn natblygiad eich asesiad llesiant ac rydw i'n cyfeirio'n aml at Hyb Cwm Taf (ac yn awr at wefan y BGC) fel enghraifft o gydweithio. Gwn eich bod yn weithgar yn Nhasglu'r Cymoedd a mynychodd fy nhîm lansiad rhwydwaith ymgysylltu cyhoeddus yn gynharach eleni. Mae'n braf clywed eich bod yn dal i gydweithio gydag ystod o bobl i greu ymgyfraniad ystyrlon trigolion Cwm Taf. Rydw i'n dymuno gweld BGCau yn dal i ffocysu ar ymgyfraniad pobl yn natblygiad amcanion llesiant a thu hwnt i gyhoeddiad eu cynllun. Mae hyn yn golygu llawer mwy na'r ymgynghori arferol ac ymgysylltu ad hoc. Byddaf yn dymuno gweld yn eich cynllun llesiant sut yr ydych yn cymryd camau i ddeall profiadau bywyd pobl yn eich ardal a sut mae hyn yn llunio eich gweithredu? Sut ydych chi'n ymroi i wella ymgyfraniad pobl yn eich penderfyniadau? Sut fedrwch chi gydweithio gydag aelodau'r gymuned wrth gwrdd â'r camau hyn? Fel gyda Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, pa ddewisiadau sydd yna i ennyn ymgyfraniad pobl â phrofiad o fywyd go iawn ar Fyrddau a grwpiau partneriaeth?

Mae eich Grŵp Llesiant wedi gweithio'n galed i'ch helpu i gyrraedd y lefel hwn o gynnydd mewn asesu llesiant ar gyfer eich ardal, gan syntheseiddio'r dystiolaeth hon i mewn i flaenoriaethau lefel uchel, gan greu dadansoddiad ymateb cynhwysfawr iawn tra'n ymgysylltu ag ystod eang o bobl i symud eich cynllunio llesiant yn ei flaen. Ond rhaid i mi bwysleisio mai eich arweinyddiaeth chi sy'n ofynnol i fabwysiadu dull newydd o weithio. Rwy'n ymwybodol y gellid gweld y Ddeddf fel un peth arall i sefydliadau gydymffurfio â hi, a'r BGC fel cyfarfod arall sy'n rhaid i chi ei fynychu. Ond mae'r Ddeddf yn eich grymuso, yn ddull o herio'r dulliau yr ydym bob amser wedi eu mabwysiadu, ac y gyfle i geisio gwneud mwy o synnwyr i bobl Cymru - yn awr ac yn y dyfodol. Mae gen i rôl i adnabod a lleihau rhwystrau, ond dim ond chi - fel uwch arweinwyr, fedr beri i'r newid hwn ddigwydd, a chreu BGC sydd mewn gwirionedd yn gwireddu newid.

Rwy'n dymuno gweld manylion yn eich cynllun llesiant sy'n dangos sut mae'r hyn yr ydych yn ei wneud yn awr yn wahanol i'r hyn yr oeddech yn arfer ei wneud, a sut yr ydych yn gweithio'n wahanol fel sefydliadau unigol ac ar y cyd, gan ofyn i chi eich hunain yn gyson 'beth allwn ni ei wneud gyda'n gilydd' i wyrdroi rhai o'r problemau parhaol nad ydynt wedi eu datrys gan y dulliau yr ydych yn eu defnyddio ar hyn o bryd.

Mae'r arweinyddiaeth hon ynghyd â gweithio mewn partneriaeth yn treiddio i holl lefelau eich sefydliadau. Mae cynrychiolaeth gyson, a sut yr ydych yn dwyn negeseuon yn ôl o'r BGC i'ch sefydliadau chi eich hunain yn hollbwysig ar gyfer adeiladu cysylltiadau ac ennyn gweithrediadau. Mae cyfleu i'ch uwch dimau rheoli pam fod gwaith y BGC yn bwysig a defnyddio'r cynllun llesiant i herio arferion presennol o fewn eich adrannau chi eich hunan yn allweddol ar gyfer creu'r newid mewn diwylliant a amlygwyd gennych yn eich trafodaethau gyda fy nhîm. Un o fy swyddogaethau i yw adnabod a lleihau rhwystrau, ond mae hyn hefyd yn wir amdanoch chithau - fel uwch arweinwyr, eich rôl chithau hefyd yw herio eich rheolwyr i weithio'n wahanol a'u darbwyllo ei bod hi'n 'saff i fethu'.

Wrth wneud hyn, bydd angen i chi hefyd ddangos sut mae eich sefydliadau'n cymryd pob cam rhesymol wrth ymarfer eu swyddogaethau i gwrdd ag amcanion y BGC. Rwy'n gwerthfawrogi y gallai hyn fod yn heriol yn ystod cyfnodau cyntaf gweithredu'r Ddeddf gan fod amcanion unigol cyrff cyhoeddus wedi eu gosod. Felly, tra fy mod yn deall bod ar FGCa a chyrrff cyhoeddus angen amser i weithio tuag at alinio, byddaf yn dymuno sicrhau nad yw gwaith y BGC yn cael ei weld fel rhywbeth ar wahân i flaenoriaethau'r cyrff sy'n aelodau ohono neu gyfarfodydd partneriaethau eraill, a byddaf yn gwybod mwy am hyn wrth i ni symud drwy gyfnodau cyntaf ei weithrediad.

Mae'n dilyn bod cydlynu'r gwaith hwn yn gofyn am gydnabyddiaeth pob un ohonoch fel aelodau'r BGC. Mae gen i ddiddordeb i weld sut mae gwahanol FGCa yn cael eu cynorthwyo, ac ymddengys, pan fydd gwaith yn aml-asiantaeth, ac yn cael adnoddau ac ymrwymiad gwahanol bartneriaid, bod cydweithio ac integreiddio ar draws adrannau'n dod yn haws. Gwn mai dyma'r achos yng Nghwm Taf ac mae aelod o fy nhîm wedi mynychu is-grŵp cynllunio llesiant ac yn hapus iawn gyda'r ymrwymiad aml-asiantaeth a ddangoswyd yno. Ond gwn bod yna rai partneriaid yn dal yn amharod i gydweithio ar bob lefel ar draws Cymru, sy'n hollbwysig ar gyfer gwireddu unrhyw syniad o newid. Mae rhai BGCau eisoes yn mabwysiadu trefniadau gwaith agosach, tîm rhithwir aml-asiantaeth ag uwch arweinydd neu secondiadau mwy ffurfiol a chyd-leoli. Mae nifer o adnoddau ar gael a allai fod yn



dddefnyddiol megis [Designing Multi-Agency Partnerships; Leading Culture Change](#) a [Stepping up: a framework for public sector leadership on sustainability](#). Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i chi, pobl mewn sefyllfaedd o arweinyddiaeth, chwarae eich rhan a bod yn ddewr wrth sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen.

Dylai'r cyngor hwn gael ei gymryd ar bob lefel gan FGCau, ond rwy'n gwerthfawrogi bod pob BGC wedi mabwysiadu gwahanol agweddau wrth ddrafftio'u hamcanion llesiant ac y byddant yn cyflawni eu cynllun llesiant yn y cyd-destun sy'n iawn iddynt hwy. Bydd ail ran fy nghyngor yn eich helpu i ddangos drwy eich cynllun llesiant sut yr ydych wedi defnyddio'r pum dull o weithio a'r saith nod llesiant i lunio eich camau.

Cyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:

O'r sgysiau rheolaidd yr ydych wedi eu cael gyda fy nhîm, gwn fod eich swyddogion cynorthwyol wedi gweithio'n galed dros yr haf i fanteisio ar gasgliadau eich asesiad, wedi blaenoriaethu materion drwy ymgysylltu gyda chi ac ymgysylltu ag eraill i gasglu gwybodaeth broffesiynol i ddrafftio eich amcanion a'ch camau. Mae'r rhan hon o fy nghyngor ar eich tri amcan drafft a'r camau yr ydych wedi eu nodi hyd yn hyn, a'r bwriad yw rhoi syniadau i, gwybodaeth a chysylltiadau i chi a allai helpu i ddangos sut yr ydych wedi ystyried y camau y byddwch yn eu cymryd yng nghyd-destun rhanbarth Cwm Taf.

Rwy'n falch eich bod wedi ceisio lledaenu eich camau drafft ar draws amserlenni hwy; fodd bynnag nid yw pwrpas y camau tymor canolig a'r hirdymor yn glir yn y modd y maent wedi eu hysgrifennu. Mae eich camau tymor byr wedi eu gosod fel cyfres o weithrediadau manwl, ond caiff eich camau tymor canolig a'r hirdymor eu fframio fel amcanion yn hytrach na chamau. Mae hyn yn cyflwyno darlun dryslyd. Wrth i chi gynnal eich ymgynghoriad ar eich amcanion a'ch camau, efallai y byddwch yn dymuno defnyddio gwybodaeth o'r cyfnod hwn, ein gwaith ymgysylltu blaenorol a'r Asesiad Llesiant i drwytho cwmpawd ehangach ar gyfer rhai o'ch camau a ddylai eich helpu i sylweddoli ystod fwy o fanteision niferus. Gellid cyflwyno hwn fel gweledigaeth hirdymor ar gyfer pob un o'ch amcanion a set o gamau sy'n gosod allan yn glir beth fydd wedi newid fel canlyniad i'ch ymyriadau dros gyfnod o amser.

Bydd defnyddio'r pum dull o weithio'n gyson i herio'ch ymagwedd arferol ac ymroi i facsimeiddio eich cyfraniad i'ch saith nod llesiant ym mhob un o'ch amcanion yn rhoi i chi fframwaith newydd ar gyfer cynllunio a chyflawni sy'n eich herio chi a'ch sefydliadau i wneud pethau'n wahanol.

Hybu cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus a fydd yn gwella llesiant trigolion ac ymwelwyr ac yn adeiladu ar ein hasedau cymunedol.

- Datblygu Parthau Cymunedol fel ymagwedd ardal neu ymagwedd seiliedig ar le gan ffocysu cymorth ar wella canlyniadau i'n trigolion â'r heriau mwyaf.
- Byddwn yn gweithio'n wahanol gan ennyn ymgysylltiad ein cymunedau a chynyddu gwirfoddoli lleol.



- c. Gweithio gyda'n cymunedau i ddarparu negeseuon cyson a chysylltiadau ac arwyddion i'r gymuned, y sector cyhoeddus a chefnogaeth i fusnes o fewn ac yn agos at gymunedau.
- d. Gweithio gyda chymunedau a chynorthwyo cymunedau sydd yn dymuno rheoli a gwella eu hamgylchedd lleol.
- e. (Y tymor canolig) gwirfoddolwyr cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyd-gysylltu'n dda, gyda chymunedau sy'n wybodus am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac sy'n ffynnu.
- f. (Y tymor canolig) Amgylcheddau diogel a dymunol a manau agored gwyrdd, lle mae pobl yn falch i fyw ynddynt a chyfranogi.
- g. (Yr hirdymor) Cymunedau'n llunio gwasanaethau i gwrdd ag anghenion trigolion ac ymwelwyr.

Fel arweinwyr asiantaethau lleol, mae gennych rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o hybu a chynorthwyo cydlynid cymunedol. Mae'r potensial ar gyfer eich rôl yn y maes hwn yn mynd tu hwnt i adeiladu gallu cymunedol drwy hwyluso rhwydweithio a chydweithio, a darparu hyfforddiant i grwpiau cymunedol a chyflogwyr. Dim ond i ryw raddau all yr agweddau hyn ar gymorth cymunedol ddatrys y problemau a wynebir gan bobl a chymunedau. Sut ydych chi'n mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau systemig sy'n atal pobl, cymunedau a chyflogwyr rhag defnyddio eu hyfforddiant neu eu gwybodaeth neu sy'n eu hatal rhag cyrchu'r gwasanaethau a fedr helpu? Ydych chi wedi ystyried sut y gallech wella gwasanaethau presennol fel y gallent gyflwyno ymagwedd ataliol - stopio problemau fel Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod cyn iddynt ddigwydd - drwy gomisiynu'r gwasanaethau hyn yn wahanol?

Adnabu eich asesiad llesiant ysbryd cymunedol fel prif ased Cwm Taf. Hoffwn weld dealltwriaeth ddyfnach o'r modd y gallwch sianeli hyn i gyfeiriad gweithredu cadarnhaol a chredaf mai'r dull gorau o ddysgu hyn yw drwy brofiadau bywyd y bobl sy'n byw yno. Bydd ennyn ymgyfraniad eich staff, mynd o le i le i siarad â phobl a chydweithio gyda hwynt i gyflawni prosiectau yn fodd o ennill ymddiriedaeth cymunedau a gweld canlyniadau cadarnhaol. Gallai deall profiadau bywyd pobl roi mewnwleidiad pwysig i chi o'r modd y mae cymunedau gwahanol yn gweithredu a ble byddai eich gwasanaethau o'r defnydd gorau. Mae rhoi arweiniad i bobl yn rhywbeth mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud ac yn aml, mae'r person hwnnw'n cael ei anghofio ar ôl iddo adael ein desg. Gall integreiddio eich gwasanaethau yn llawer gwell, gwella rhannu gwybodaeth a gwrandao'n astud ar asedau'r person hwnnw olygu ymateb mwy ataliol, amserol ac effeithiol.

Ar hyn o bryd, nid yw gwasanaethau'n cael eu trefnu mewn ffordd a fyddai'n gwireddu'r amcan hwn. Rydym yn delio â phobl mewn categorïau twt 'defnyddwyr-gwasanaethau', megis 'dioddefwr camdriniaeth ddomestig', 'troseddwr ymddygiad gwrthgymdeithasol', un sy'n camddefnyddio sylweddau', 'tenant trafferthus' sy'n aml yn creu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael cyfle cyfartal neu ganlyniadau. Mae'r ffordd hon o weithio'n golygu ein bod yn methu cysylltu materion, yn methu integreiddio a gweld arwyddion sefyllfa sy'n gwaethygu. Mae eich gwaith yn yr Ganolfan Diogelu Aml-Asiantaeth yn ymroi i chwalu'r seilos hyn a dylid eu gweld fel arfer gorau, a hoffwn eich gweld yn adeiladu ar yr ymagwedd hon yn nhermau cwrdd â'ch amcanion.

Mae cylchoedd yn parhau i mewn i'r genhedlaeth nesaf, fel y dangoswyd gan waith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac mae mynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod felly yn rhywbeth y dylid ei weld fel cyfrifoldeb yr holl system, nid yn unig yn nhermau ymwybyddiaeth ond yn nhermau'r modd y mae'r system yn gweithio. Mae gwneud pobl, a'r rhai hynny sy'n gweithio gyda hwynt, yn ymwybodol o'r arwyddion a medru mabwysiadu ymagwedd wedi ei thrwytho gan wybodaeth am drawma yn bwysig, ond rwy'n dymuno gweld sut yr ydych yn bwriadu mynd i'r afael â gwasanaethau'n gyffredinol. Mae'n bwysig eich bod yn ystyried pa mor dda yw ymateb y gwasanaethau sydd ar hyn o bryd yn ymateb i deuluoedd lle mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ffactor, gan ofyn a ydynt yn addas ar gyfer y diben yn nhermau atal profiadau niweidiol plant a theuluoedd. Rydych wedi gwneud cychwyn da gyda'ch gwaith ar fregusrwydd, y Ganolfan Diogelu Aml-Asiantaeth, y cynllun braenaru i fenywod a'ch cymorth i wasanaethau cam-drin domestig, ond hoffwn ddeall sut yr ydych yn bwriadu symud ymlaen i gomisiynu adolygiad a gwella'r gwasanaethau hyn yn ogystal â'ch gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl fel eu bod yn y lle gorau i atal ac ymateb i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Byddai cymhwyso'r pum dull o weithio at y mater hwn yn golygu bod gwasanaethau i deuluoedd mewn troseddau cyfiawnder, gwasanaethau cyhoeddus, y blynyddoedd cynnar, camddefnyddio sylweddau, camdriniaeth ddomestig, ac eraill, yn integredig ac effeithiol ar gyfer atal sefyllfa rhag gwaethygu, yn ogystal â bod wedi ei drwytho gan brofiadau unionyrchol a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio i bobl a'r hyn nad yw'n gweithio. Mae'r gwaith a wnaethoch rai blynyddoedd yn ôl gyda'r Kafka Brigade parthed camdriniaeth ddomestig yn enghraifft dda o'r modd y gellir gwneud hyn, a buaswn yn eich annog i roi ystyriaeth bellach i'r modd y gallwch fabwysiadu ymagweddau tebyg wrth i chi symud ymlaen i gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion. Yn ddiweddar bu Alyson Francis, Cyfarwyddwr Canolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn gweithio gyda fy swyddfa i ysgrifennu atoch i amlinellu nad un peth arall i dalu sylw iddo yw Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ond cyfle i ailystyried sut yr ydym yn darparu gwasanaethau gyda'n gilydd sy'n gwneud synnwyr i'r teuluoedd sy'n eu derbyn. Gallai'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod hefyd weithredu fel man canolog lle gallai BGCau rannu arfer, gan fod bron bob un o'r BGCau yng Nghymru wedi trafod blynyddoedd cynnar, a phlant â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn eu hamcanion drafft a'u camau. Mae Alyson Francis a minnau hefyd ar banel gwefinar [Cyfnewidfa Arfer Da Cymru ar ddeall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod](#) ar y 7fed Tachwedd, a allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth i chi ystyried eich camau ar gyfer yr amcan hwn.

Bwriad y pum dull o weithio yw herio sut yr ydym yn gwneud pethau ar hyn o bryd a darparu lens fel gwasanaeth cyhoeddus cyflawn ar gyfer delio â phroblemau. Mae enyn ymgyfraniad pobl yn ganolog i herio'r system oherwydd dim ond drwy ddeall profiadau bywyd pobl fedrwn ni ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r enghraifft hon '[Why poor people don't plan long-term](#)' yn rhoi mewnwelediad i'r rhwystrau sy'n wynebu pobl wrth oresgyn anghydraddoldeb ac mae'r astudiaethau achos a gynhwysir yn yr [adroddiad hwn gan Locality](#) yn dangos costau ariannol a chymdeithasol o fethu mabwysiadu ymagwedd holistig ac ataliol tuag at fywydau pobl. Gwn y bydd gwaith eich Parthau Cymunedol yn ceisio newid hyn a bydd

Mae costau cychwyn gwaethaf mewn bywyd yn enfawr, i fywyd yr unigolyn ac i wasanaethau cyhoeddus. [Amcangyfrifir y bydd gwasanaethau ymyrraeth hwyr ar gyfer pobl ifanc yn costio £17 biliwn y flwyddyn i Gymru a Lloegr](#) (£6 biliwn ar amddiffyn a diogelu plant, £5.2 biliwn ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, £3.7 biliwn ar anweithgarwch economaidd pobl ifanc, £680 miliwn ar absenoldebau a gwaharddiadau o'r ysgol, £610 miliwn ar anafiadau i blant a phroblemau iechyd meddwl, a £450 miliwn ar gamddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc). Rydw i eisiau gweld bod eich sefydliadau yn cydnabod bod atal canlyniadau gwael yn rhan o'u holl gyfrifoldebau. Dengys gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y [1000 diwrnod cyntaf o fywyd plentyn](#) y manteision y gellid eu sylweddoli drwy fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar. Sut fedrai gwasanaethau cyhoeddus orfod newid os byddwch yn dargyfeirio eich buddsoddiad. Beth a olyga hyn yng nghyd-destun cymunedau Cwm Taf?

Fel y nodwyd gennych, gall tlodi, camdriniaeth, gwahaniaethau a ffurfiau eraill o anfantais gael effeithiau ar lesiant plant a phobl ifanc sy'n parhau am amser hir ac sy'n medru effeithio'n wael ar eu tebygrwydd o sicrhau dyfodol ffyniannus, iach, diogel a chymdeithasol weithgar. Mae plentynod yn gyfle allweddol a bydd yr ymyriadau cadarnhaol a roddir yn eu lle yng Nghymru yn awr i warchod a darparu ar gyfer plant yn helpu i sicrhau dyfodol mwy ffyniannus, iach a chydlynol i Gymru. Dylid ystyried i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus a BGCau yn ffocysu ar bolisiau hawliau plant, gan alluogi plant i ddysgu am eu hawliau a'u grymuso i chwarae rhan weithgar yn eu cymunedau. I gefnogi'r gwaith hwn mae pecyn cymorth yn cael ei ddatblygu a'i brofi a bydd ar gael cyn diwedd y flwyddyn. Byddai swyddfa'r Comisiynydd Plant yn hapus i'ch cyngori ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a mabwysiadu ymagwedd sy'n edrych ar bethau o safbwynt hawliau plant tuag at sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Fel y dangoswyd gan eich asesiad llesiant, mae teimlad o gymuned ac o berthyn yn hollbwysig i lesiant. Felly, rwy'n eich cyngori i ennyn ymgyfraniad ac yn cydweithio gyda'r 'rhai anarferol' wrth ddeall gwerth hyn ac agweddau eraill ar lesiant. Gall cydweithio gyda gwahanol bobl a defnyddio diffiniad o'r saith nod llesiant fel canllaw roi i chi gamau y gallech eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn sy'n cyfrannu tuag at Gwm Taf mwy cyfartal hefyd. Ceisiwch gael plant a phobl ifanc i ymgyfrannu drwy ysgolion; manteisiwch ar wybodaeth busnesau a'r sector economaidd; ystyriwch y rôl y mae Cyngorau Cymuned a'r trydydd sector yn chwarae hefyd mewn cysylltu pobl. Buaswn yn cyngori pob un o'ch sefydliadau i ymrwymo i Safonau Cyfranogaeth Cenedlaethol a gweithio gyda [Cyfranogiad Cymru](#), a fedr gynorthwyo eich swyddogion i ennill y sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer ymgyfraniad effeithiol ac ystyrlon. Gallai [Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru](#) eich helpu i ystyried cynlluniau bancio amser, i roi enghreifftiau o gyd-gynhyrchu da a'ch helpu i adnabod ac ymgysylltu ag arweinyddion cymunedol.

Mae gwirfoddoli'n gwneud cyfraniad amhrisiadwy i ddiwylliant, cydnerthedd a chydlynol cymunedau. Mae'r cynllun llesiant yn cynnig cyfle gwirioneddol i gysylltu gwirfoddoli a chanlyniadau dealladwy i unigolion a chymunedau. Hoffwn eich gweld yn twrio'n ddyfnach i'r data i ddatblygu eich dealltwriaeth o'r rhesymau dros awydd pobl Cwm Taf i wirfoddoli, yn ogystal â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwneud hyn, a'r meysydd lle gellid defnyddio gwirfoddoli mewn dulliau llai amlwg i helpu i gwrdd ag anghenion lleol neu unigol. Dylai hyn ddarparu syniad o 'bwrpas' ar gyfer y cam hwn gan eich helpu i adnabod gweithredu arloesol.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymgyfrannu'n unig mewn rhywbeth sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt hwy, eu teulu neu'r man lle maent yn treulio amser ac yn aml gall hyn arwain at ganlyniadau llawer mwy fel y dengys y gwaith a wnaed gan ['Nurture Development' Datblygu Cymuned sy'n seiliedig ar Asedau](#). Mae'r astudiaeth ['Lle Dwfn' yng Nghanolfan Adfywio Rhagoriaeth Cymru yn Nhredeg](#) yn rhoi tystiolaeth o'r modd y mae dealltwriaeth o le yn medru bod yn fanteisiol iawn i lesiant. Er enghraifft, oes yna ffyrdd y gall y BGC annog a gwobrwyo'r gweithredu cymunedol hyn mewn ffyrdd a fyddai'n eich helpu i gwrdd â'ch amcanion mewn meysydd arbennig? Er enghraifft, mae adroddiad y Sefydliad Royal Town Planning, ['Poverty, Place and Inequality'](#) yn cynnwys nifer o argymhellion sy'n egluro pam mae ymagweddau seiliedig ar le yn allweddol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Mae'r ymchwil a ddogfennwyd yn ['What Works in Community Cohesion'](#) hefyd yn rhoi arweiniad defnyddiol i FGCau ar wahanol ddimensiynau o gydlynid cymunedol.

Mae [Cyngor Cymuned Solfach](#) yn Sir Benfro'n enghraifft ddiddorol o'r modd y mae gwirfoddolwyr a phobl hŷn wedi elwa o gynllun i leihau arwahanrwydd a gwella llesiant. Mae yna lawer o enghreifftiau da o brosiectau sy'n ymroi i ddwyn pobl at ei gilydd i ddysgu sgiliau newydd, cymdeithasu ac adeiladu eu cydnerthedd nes ymlaen yn eu bywydau, megis [Siediau Dynion Cymru](#), sy'n digwydd ar draws Cymru, y gallai'r BGCau eu hannog a'u cynorthwyo. Dyma lle dylai'r pum dull o weithio fod yn herio eich dull o feddwl a bydd gennyf ddiddordeb mewn gweld sut y byddwch yn dylanwadu ar, ac yn annog y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Llesiant i gyflawni eich ymateb i'ch amcanion.

Sut ydych chi'n meddwl am dueddiadau hirdymor y modd y bydd pobl yn ymgyfrannu mewn rhywbeth? Golyga digideiddio bod y byd yn awr yn lle gwahanol a bydd hyn yn parhau dros yr hirdymor. Mae'r adroddiad diweddar hwn ['Digital Childhoods'](#) yn dangos fel mae technoleg yn symud a'r modd y mae plant yn awr yn defnyddio gwybodaeth, er bod [Ymddiriedolaeth Carnegie](#) yn rhybuddio yn erbyn tybio bod pob person ifanc yn ddigidol wybodus neu fod gan bob un ohonynt fynediad i seilwaith digidol. Sut mae eich sefydliadau'n harneisio technoleg i helpu i gwrdd â'r amcan hwn? Sut ellid ei ddefnyddio mewn dull cadarnhaol? Pa newidiadau allai fod angen i chi eu gwneud i'r systemau cyfundrefnol a'ch polisïau i alluogi pobl i ymgyfrannu mwy mewn cymunedau a llunio gwasanaethau lleol? Sut fedrwch chi ddefnyddio technoleg i gasglu gwybodaeth gymunedol ac ennyn ymgyfraniad pobl? Rwyf yn gweld gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fel rhai sydd wedi aros yn y 2000au cynnar yn y modd y maent yn galw trigolion i neuadd gymunedol i 'ymgysylltu'. Ar hyn o bryd dengys ymchwil bod plant rhwng 5 ac 16 mlwydd oed yn treulio chwe awr a hanner bob dydd o flaen sgrin; [28% o bobl ifanc yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol](#) fel eu prif ffynhonnell newyddion; [43% o bobl a anwyd rhwng 1980 a dechrau'r 2000au yn cael eu gyrru i wneud cyfraniadau ariannol drwy sianelau cymdeithasol](#). Mae yna gyfle gwirioneddol i ymgysylltu â phobl mewn ffordd sydd fwyaf cyfleus iddynt hwy ac sy'n rhan o'u bywyd bob dydd, nid yn orchwyl ychwanegol. Mae ['Sir Fynwy Agored'](#) yn enghraifft o lwyfan ar-lein sydd wedi rhagweld sut y gallai pobl gyfrannu tuag at wella'u hardal yn y dyfodol, gyda chyfleoedd i rannu syniadau, i ofyn am farn y gymuned, cychwyn prosiect a chwilio am wirfoddolwyr neu adnoddau.

Gallai agor tir ac adeiladau i'r gymuned fod yn ddull o annog perchnogaeth gymunedol, gan ddod â phobl at ei gilydd mewn ardaloedd lle nad oes cyfleuster cymunedol, gan ganiatáu gwell defnydd o'r amgylchedd naturiol. Gwn fod yna eisoes enghreifftiau llwyddiannus o hyn yng Nghwm Taf a bod Parc Tirweddau'r Cymoedd a

gynlluniwyd gan y Gweithlu yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ymgyfraniad cymunedol a pherchnogaeth. Ar draws y DU, mae caledi wedi golygu bod adeiladau, tir a gwasanaethau wedi cael eu trosglwyddo i'r gymuned, ac mewn llawer achos mae hyn wedi cynyddu llesiant y bobl oedd yn ymgyfrannu. Sut fedrwch chi wella'r defnydd o'r ystâd gyhoeddus gyfunol sydd gennych yng Nghwm Taf? Mae'r [Grŵp Gweithgor Asedau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru](#) wedi nodi rhai enghreifftiau Cymreig, ond mae yna lawer o sefydliadau cenedlaethol sy'n hybu gwell defnydd o dir ac asedau sy'n eiddo i'r cyhoedd, megis [Shared Assets](#), [Nurture Development](#) a [Locality](#) gyda'r bwriad o annog cymunedau i ffynnu.

Sylwais fod eich asesiad llesiant yn nodi bod gennych un o'r cyfrannau uchaf o gymunedau o dan anfantais cymdeithasol mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd a bod y perygl o lifogydd dŵr wyneb yn debygol o gynyddu fel canlyniad i'r newid yn yr hinsawdd. Gall trafferthion cymdeithasol a achosir gan lifogydd danseilio'n ddifrifol ansawdd bywyd unigolion ac effeithio ar ffabrig y cymunedau sy'n dioddef. Dengys ymchwil gan [Sefydliad Joseph Rowntree](#) nad yw polisi presennol ar y newid yn yr hinsawdd yn mynd i'r afael yn ddigonol â llawer agwedd ar lesiant sy'n cael eu heffeithio gan beryglon perthnasol i'r hinsawdd a bod llawer o gymunedau o dan anfantais gymdeithasol hefyd yn fwy tebygol o ddioddef mwy o golledion i lesiant fel canlyniad i ddigwyddiadau perthnasol i newid hinsawdd megis llifogydd. Rwyf yn eich annog i ystyried effaith y newid yn yr hinsawdd ar Gwm Taf yn arbennig ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Mae adroddiad diweddar [Zero Carbon Britain, 'Making it Happen'](#) yn nodi'r cyfrifoldeb sy'n eiddo i ni i gyd i genedlaethau'r dyfodol i weithredu yn awr ar y newid yn yr hinsawdd. Effeithiodd llifogydd ar gartrefi a busnesau llynedd mewn nifer o siroedd ac mae asesiadau llesiant yn dangos sut mae llifogydd yn effeithio ar lesiant pobl yn hir ar ôl y digwyddiad. [Mae'r niwed blynyddol a ddisgwylir ar hyn o bryd i eiddo preswyl yng Nghymru yn £22 miliwn](#), felly mae deall sut mae gwahanol ddigwyddiadau tywydd yn effeithio ar gymunedau'n hollbwysig ar gyfer eu hatal. Hoffwn weld y BGC yn ystyried effeithiau penodol ar Gwm Taf yn eu gweithgareddau tymor byr, tymor canolig a'r hirdymor. Yn y dyfodol, mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o achosi sychder yn yr haf, sy'n golygu prinder dŵr, bioamrywiaeth sy'n dirywio gan effeithio yn ei dro ar amaeth ar draws Cymru. Rydym i gyd yn dibynnu ar ein hamgylchedd am incwm, bwyd, dŵr, hamdden ac awgrymaf fod angen i chi edrych ar y seilwaith critigol sydd yn perygl mwyaf. Gall defnyddio'r saith nod llesiant i fframio'ch ymagwedd helpu pob partner i ddeall eu cyfraniad i'r mater arwyddocaol hwn. A yw ymagweddau presennol yn ddigonol ar gyfer ymdopi â hyn? Sut fedrwch chi ddefnyddio senarios i ddychmygu pa weithredu ataliol y gallech ei ddefnyddio i warchod amaeth, cyflenwadau dŵr a thrawsgludo mewn digwyddiad tywydd eithafol? Mae prosiectau megis ['GlawLif' Dŵr Cymru](#) yn awgrymu dulliau y gallwn i gyd eu defnyddio i liniaru effeithiau llifogydd gyda chymunedau'n chwarae rôl gyfartal. Mae gan [NESTA ganllaw](#) ar gyfer gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn cynnwys yr 'Her Fawr Werdd', lle mae cyfranogwyr wedi newid eu ffordd o fyw er mwyn lleihau eu hól-troed carbon. Mae [cyfriannell ôl troed amgylcheddol WWF](#) hefyd yn ein hatgoffa o'n potensial i allu gael effaith ar newid.

Ni fyddwch yn synnu i nodi bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill hefyd yn ystyried gosod eu hamcanion o gwmpas ymgysylltu, datblygu/cynnal cymunedau cryf, meithrin y teimlad o berthyn a llunio gwasanaethau. Yn

arbennig, efallai y byddwch yn dymuno rhannu syniadau gyda BGCau Bro Morgannwg, Blaenau Gwent, Ceredigion, Caerdydd a Phowys, sydd wedi rhoi amcanion drafft tebyg i mi.

- **Helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau.**
 - a. Targedu ein cymorth ar yr ardaloedd â'r heriau mwyaf gan weithio gyda'n cymunedau i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle gorau i fyw bywydau hir a hapus.
 - b. Gweithio gyda'n gilydd fel gwasanaethau cyhoeddus a gyda'n cymunedau i leihau lefelau gordewdra.
 - c. Hybu ffyrdd iach o fyw drwy annog pobl i fabwysiadu ymagwedd 'un ymddygiad iach ychwanegol' tuag at yr holl staff a defnyddwyr gwasanaethau.
 - d. (Y tymor canolig) Lleihau bregusrwydd ein poblogaeth sy'n heneiddio drwy gynyddu'r cyfraddau o'r boblogaeth â 4 neu 5 ymddygiad iach i 20%.
 - e. (Yr hirdymor) Gwella cyfraddau disgwyliad oes iach a disgwyliad oes yng Nghwm Taf i gyfartaledd Cymru.

Mae llesiant yn ymwneud nid yn unig ag iechyd, ond ein bywydau cymdeithasol, ein teimladau o berthyn, ein hamgylchoedd adeiledig a naturiol, ein hincwm a'n bywyd cymdeithasol - pob un ohonynt yn benderfynyddion ehangach iechyd. Wrth gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn, buaswn yn eich cynghori i edrych ar asedau Cwm Taf - yng nghyflwr yr amgylchedd naturiol, yr ysbryd cymunedol a threftadaeth yr ardal. Nid yw pobl fel arfer yn gwella eu hiechyd am fod y gwasanaethau cyhoeddus yn dweud wrthynt am wneud hynny, ond oherwydd eu bod hwy eu hunain yn sylweddoli gwerth eu bywydau a phwysigrwydd cadw'n iach am amser hwy. Dim ond drwy ennyn ymgyfraniad pobl yn barhaus i ddeall beth sydd yn bwysig iddynt y gallwch ddechrau effeithio ar newid ymddygiad. Mae gennych rôl mewn ystyried pa gyfleoedd a allai fod eu hangen ar bobl i wella eu hiechyd eu hunain, y gwasanaethau sydd arnynt eu hangen i wella o afiechyd a chreu'r amgylcheddau adeiledig cywir i facsimeiddio iechyd a llesiant pobl.

Fel rhan o'ch Cynlluniau Datblygu Lleol, drwy'r Ddeddf Teithio Llesol ac yn y gwaith yr ydych yn ymgyfrannu ynddo parthed Dinas Ranbarth Caerdydd, mae gennych rôl mewn cynllunio, tai a thrawsgludiant, creu mannau sy'n addasadwy ac yn abl i newid dros y ddwy genhedlaeth nesaf o leiaf. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o dai hynaf Cymru'n ddiffygiol mewn effeithlonrwydd ynni, gan greu goblygiadau ar gyfer iechyd ac arian personol. Mae tai yn cael eu hadeiladu ar gyfer strwythurau teuluoedd traddodiadol a heb fod yn hyblyg yn eu defnydd, ac rydym yn gyson yn gweld ystadau mawrion yn cael eu hadeiladu gydag ychydig iawn o sylw i deithio llesol, wedi eu lleoli ymhell o siopau, tafarnau, mannau agored gwyrddion neu las neu wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r amcan hwn yn cysylltu i raddau helaeth iawn â'r lleill, gan fod teimlo'n ddiogel a phwrpasol yn bwysig i iechyd. Mae cyflwyno trafndiaeth gynaliadwy, drwy wella ansawdd aer a hefyd drwy annog teithio llesol yn dda i iechyd; ac mae'r sgiliau i weithio o fewn economi cryf hefyd yn bwysig i iechyd. Rwyf yn eich cynghori i ddefnyddio'r saith nod llesiant fel ffrâm ar gyfer llunio myfyrdod am gynllunio a datblygu cymunedau, - y bydd ganddynt lawer o fanteision - yn cynnwys gwella iechyd ac annibyniaeth. Buaswn yn eich herio i wneud y

cysylltiadau hyn yn glir yn eich camau. Pwy sydd angen i chi ennyn eu hymgyfraniad a chydweithio gyda nhw i ennill dealltwriaeth o'r cysylltiadau hyn? Ym mha fodd y mae landlordiaid cymdeithasol yn ymgyfrannu yng ngwaith BGC? Pwy arall sydd arnoch angen eu hymgyfraniad?

Sut ydych chi wedi ystyried effaith ein hamgylchedd naturiol ar ein hiechyd? Gall llygredd o drafndiaeth, diwydiant a threfoli achosi cancr, clefydau anadlol, niweidio organau a lleihau disgwyliad oes. [Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru](#) lefelau allyriadau carbon wedi eu hisrannu i lefelau Awdurdod Lleol, a [Galwad am Dystiolaeth](#) i archwilio'r mecanweithiau mwyaf effeithiol ar gyfer gwireddu sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Er mai dim ond ychydig o allyriadau yng Nghymru sy'n deillio o'r sector cyhoeddus, rydych chi mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu'n fwy eang ar allyriadau mewn meysydd megis cludiant nwyddau, ynni, defnyddio tir a chaffael. Byddaf yn cynnal digwyddiad ar yn 9fed Tachwedd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru: i archwilio sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n medru ennyn ymgyfraniad pobl mewn cydweithio ac integreiddio eu gwaith, i dalu mwy o sylw i oblygiadau carbon eu gweithrediadau yn yr hirdymor, a helpu i atal effeithiau'r newid yn yr hinsawdd rhag gwaethygu.

Ar gyfer gwella eu hiechyd, bydd y rhan fwyaf o bobl yn ymgyfrannu'n unig mewn rhywbeth sy'n hwyl ac o les iddynt hwy, felly sut fedrwyd chi ddefnyddio chwaraeon, treftadaeth, iaith, gweithgareddau awyr agored a diwylliant i alluogi pobl i gymryd rhan? Sut fedr garddio cymunedol, tyfu bwyd a hyd yn oed cadw gwenyn gael effaith cadarnhaol ar eich amgylchedd naturiol, helpu Cwm Taf i fod yn fwy cyfrifol yn fyd-eang a galluogi pobl i fwyta'n iach? Mae dwyn pobl at ei gilydd gyda'i gwahanol ddiwylliannau, coginio, celf a pherfformio yn creu cydlynid a theimlad o berthyn - sy'n cysylltu â'ch amcan cyntaf. Sut allai pobl gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol i'w helpu i deimlo eu bod yn rhan o rywbeth a thrwy hynny, o bosib, wella eu hiechyd? Mae Comisiynydd yr Iaith Gymraeg yn gweithio gyda fy nhîm i'w helpu i ddeall y ffordd orau o gynorthwyo BGCau yn y rôl y gallant ei chwarae i gynyddu'r nifer o bobl sy'n siarad Gymraeg, fel yr amlinellwyd yn ['Cymraeg 2050'](#) drwy'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Os gwelwch yn dda gadewch i fy nhîm wybod os hoffech gysylltu ag unigolion perthnasol yn y sefydliadau hyn.

Yn yr un modd mae strategaeth [Cyngor Celfyddydau Cymru'n](#) amlinellu rhai o'r manteision i iechyd, cydlynid a sgiliau'r boblogaeth sy'n deillio o ymgyfrannu mewn gweithgareddau creadigol. Mae'r [Rhaglen Comisiynu Diwylliannol, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr](#) yn ymroi i helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddeall sut y gallant wella canlyniadau drwy integreiddio celfyddyd a gweithgareddau diwylliannol gydag ystod o wasanaethau, yn cynnwys iechyd meddwl a llesiant, pobl hŷn a chomisiynu seiliedig ar le. Dim ond drwy roi bachyn i bobl y gallwch ymroi i gynyddu gwirfoddoli, helpu pobl i ddathlu cysylltiadau cymunedol eu hardal a chreu manteision ehangach i iechyd. Bydd cydweithio gyda chyrrff cenedlaethol sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf megis Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, yr Amgueddfa Genedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn eich helpu i weld sut y gall fydd y camau yr ydych yn eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn yn maccimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau.

Mae newid yn aml yn 'glynu' pan fydd pobl yn ymgyfrannu mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol gyda'i gilydd; er enghraifft, darganfu'r adroddiad Nudjed '[Behaviour Change is a Team Sport](#)' bod cael pobl at ei gilydd yn cynyddu patrymau ymarfer corff. Mae eu gwaith wedi cynnwys gweithio'n llwyddiannus gyda mamau ifanc yng Nghymoedd De Cymru i ennyn eu hymgyfraniad mewn gweithgaredd mwy corfforol. Mae yna lawer o fodelau presgreibio cymdeithasol a modelau iechyd amgen ond awgrymir gan dystiolaeth bod mabwysiadu ymagwedd wahanol tuag at iechyd yn hynod fanteisiol. Mae'r [astudiaeth hon ar bresgreibio cymdeithasol ym Mryste](#), yn rhoi peth mewnwelediad i'r gwelliannau mewn iechyd meddwl ac iechyd yn gyffredinol. Dangosodd rhaglen ddogfen ddiweddar y BBC '[The doctor who gave up drugs](#)', sawl enghraifft o'r modd y gall ymagwedd amgen tuag at bresgreibio tabledi gael effaith fwy holistig, cadarnhaol sy'n para am amser hir, ar fywyd rhywun - gyda phobl yn dod yn fwy ffyt yn gorfforol ac yn fwy iach yn feddyliol heb ddibyynu ar bresgripsiynau. Buaswn yn annog y BGC i ddefnyddio'r pum dull o weithio ac ail feddwl am y modd y maent yn defnyddio adnoddau a chefnogi mentrau eraill tebyg.

Mae yna gyfleoedd i chi weithio gyda sefydliadau megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt, i ddatblygu ymagwedd drwy'r rhanbarth-cyfan. Mae prosiect [Coed Actif Cyfoeth Naturiol Cymru'n](#) enghraifft o gael pobl allan i'r awyr agored, i amddiffyn eu hamgylchedd a mwynhau'r effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant. Sut fedrwn chi ennyn awydd y trydydd sector i'ch helpu? [Cynhyrchodd y CGGC wybodaeth ehangach](#) ar sut mae'r trydydd sector yn chwarae rhan mewn cyfrannu i'r Ddeddf, yn cynnwys adnoddau ar y saith nod llesiant. Yn eich ardal chi, mae sefydliadau cymunedol wedi cael eu hariannu gan Gronfa Gofal Ganolraddol i weithredu fel cydlynwyr cymunedol ar gyfer pobl hŷn - a'u cysylltu â gweithgareddau lleol a gwasanaethau yn eu hardal a'u helpu i aros yn weithgar ac iach. Os fydd hyn yn llwyddo sut fedrwn ni gydweithio'n well ar ddarparu adnoddau i fentrau fel y rhain.

Fel mewn llawer o ardaloedd Cymru, amlygodd eich asesiad sut mae iechyd meddwl yn medru effeithio ar bobl yng Nghwm Taf. Mae oddeutu 50% o bobl â phroblemau iechyd meddwl parhaus yn dangos symptomau erbyn iddynt gyrraedd 14 mlwydd oed, a llawer pan fyddant yn llawer ieuengach. Os ydy'r symptomau'n bodoli pan fydd plentyn mor ifanc, beth ellir ei wneud i atal problemau nes ymlaen mewn bywyd? Os gwyddom fod y GIG ar gyfartaledd yn gwario dros £21 miliwn ar bresgripsiynau gwrth-iselder, sut fedrwn ni weithredu'n gynt? Mae [Caerdydd wedi treialu gwersi iechyd meddwl i blant](#) ac mae adroddiad newydd oddi wrth Respublica a Barnado: [Making young minds matter](#) yn amlinellu ymyriadau cynnar (megis cwnsela yn yr ysgol yng Nghymru) a fedr gael effaith cadarnhaol ar iechyd meddwl. Sut fedr y BGC roi pwysau ar y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Rhanbarthol i gymryd camau i gwrdd â'r amcanion hyn? Buaswn yn eich cyngori i ennyn ymgyfraniad plant a phobl ifanc yn y broses o ddeall unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyrchu'r gofal a'r cymorth priodol, dylunio gwahanol wasanaethau a gwerthuso effeithiau'r ymagwedd hon. Mae'r mater hwn hefyd yn amlwg yn cysylltu â'r modd yr ydych yn ymateb i fynd i'r afael â Phroblemau Niweidiol yn ystod Plentynod a buaswn, felly, yn eich cyngori i ystyried y materion hyn fel rhan o'r un darlun.

Sut ydych chi wedi ystyried tueddiadau hirdymor a chyfleoedd a gyflwynir gan y boblogaeth hŷn? Gyda disgwyliad oes yn gwella, cynghoraf chi i gydnabod gymaint o ased yw'r boblogaeth hyn yn nhermau gofalu, gwirfoddoli a chyfrannu i'r economi. Mae gwaith [Comisiynydd Pobl Hŷn](#) yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer archwilio'r camau y

gallech eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn ac mae'n cynnwys eu harweiniad diweddar i FGCau. Hefyd, gofynnwch i chi eich hunain a yw'r ddarpariaeth bresennol yn briodol ar gyfer rheoli'r mater hwn, sydd ar gynydd? Ble allai fod yna angen mwy o weithredu ar y cyd? Ar hyn o bryd prin fod gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau iechyd yn delio â'r galw presennol ac, yn anffodus, mae llawer yn edrych ar ddulliau traddodiadol o ddelio â hyn. Dyma lle dylai'r pum dull o weithio fod yn herio eich dull o feddwl. Mae'r [adroddiad hwn gan Young Foundation](#) yn rhoi ysbrydoliaeth ar 'Arloesi ffyrdd gwell o fyw yn hwyr mewn bywyd' gan herio'r seilos traddodiadol yr ydym yn gweithio ynddynt. Gall creu cymunedau ac amgylcheddau hyblyg, cyfeillgar i oed, atal pobl rhag bod mewn angen gofal cymdeithasol, rhag cael eu hynysu, rhag dioddef afiechyd neu gael damwain yn eu cartrefi.

Mae ymchwil gan [Heneiddio'n Dda yng Nghymru](#), wedi dangos hyn, ac yn awgrymu bod unigrwydd ymhlith pobl yn ymwneud â pha faint o gysylltiad sydd gan bobl â'u cymunedau'n gorfforol, ac â themlo eich bod yn rhan o rywbeth. Yn ein heconomi sy'n rhannu, a allai fod yna atebion technegol ar-lein a fedr atal arwahanrwydd cymdeithasol, megis cronfeydd ceir, neu drafnidiaeth gymunedol wedi eu cysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol? Mae'r cysyniad o 'Hyperbentref' a ddatblygwyd gan FutureScape yn dychmygu pentrefi wedi eu cysylltu gan eu hasedau, [sy'n annog pobl mewn cymunedau gwledig i elwa ar dechnoleg](#). Sut ydych chi wedi meddwl am y posibiladau hirdymor o fanteisio ar dechnoleg i ddatrys y mater hwn? Sut fedr pobl hyn ddod yn fwy cysylltiedig â chyfleoedd cymdeithasol a gwirfoddoli? Oes yna wirfoddolwyr yn ymgyfrannu ar hyn o bryd yng ngwaith y BGC i'ch helpu i ystyried sut y gallant eich helpu i gwrdd â'ch amcanion?

Yn gysylltiedig â hyn, mae gan Gymru'r cyfle i ddatblygu tai sy'n cwrdd â'r newid democrataidd yn well, gan fabwysiadu technoleg sy'n caniatáu i bobl fyw'n annibynnol am amser hwy. Mae rhaglenni fel [Dinasoedd Cyfeillgar i Oed Sefydliad Iechyd y Byd](#) wedi annog a chydabod y dinasoedd hynny sydd wedi gwneud eu hunain yn fwy cyfeillgar i oed gan addasu adeiladau, cynlluniau trafnidiaeth a rheolau cynllunio, sy'n galluogi pobl hyn i gadw'n iach ac mewn cysylltiad â phethau sydd o bwys iddynt am amser hwy; mae [Laguna Woods](#), y ddinas gyntaf yn yr UE sydd wedi ei neilltuo i bobl hyn a maestrefi Marjala yn y Ffindir yn enghreifftiau o ddylunio sy'n addas ar gyfer galluoedd lluosog. Yn ogystal â chyfrifoldebau'n ymwneud â chynllunio a seilwaith dylunio, mae yna nifer o brosiectau arloesol byd-eang sy'n annog tai preifat sy'n rhannu cyfleusterau, tai a gefnogir, a chartrefi sy'n cael eu rhannu. [Mae myfyrwyr yn byw heb dalu rhent mewn cartrefi gofal](#) mewn cyfnewid am gymdeithasu a darparu gofal sylfaenol i'r trigolion hyn; mae Awstralia a Seland Newydd wedi cyflwyno [cynlluniau Rhannu Cartref](#), ac, fel rhan o strategaeth ddemograffig y llywodraeth, mae'r [Almaen](#) wedi cyflwyno tai sy'n pontio'r cenedlaethau i bobl hyn a theluoedd ifanc mewn angen. Yn Singapore, rhoddir grant o \$50,000 i bobl ifanc os yr ydynt yn barod i symud i fyw o fewn 1 cilomedr i'w neiniau a'u teidiau. Mae'r rhain i gyd yn gamau arloesol effeithiol, a gyda nifer o bobl hyn yn cynyddu ar ras, beth yw canlyniadau gwneud dim byd?

BGCau eraill sy'n edrych ar amcanion tebyg yw Castell-nedd Port Talbot, Caerdydd, Conwy/Sir Ddinbych, Sir Fynwy a Phowys.

- [Tyfu economi lleol cryf gyda thrafnidiaeth gynaliadwy sy'n denu pobl i fyw, gweithio a chwarae yng Nghwm Taf.](#)



- k. I wneud y gorau o gyfleoedd buddsoddi a manteision £1.299 biliwn Bargen Ddinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd a'r Metro, yn lleol ac o fewn Cwm Taf.
- l. Cynyddu a hybu twristiaeth gan ddefnyddio asedau ein hamgylchedd naturiol prydfferth, ein treftadaeth a'n diwylliant ar gyfer hybu iechyd a ffyniant a bod o fudd i'r gymuned gyfan, ac ochr yn ochr â datblygiad Parc Tirweddau'r Cymoedd.
- m. Annog a hybu dyheadau ein pobl.
- n. Datblygu Cynllun Prentisiaid, Graddedigion a Chyfleoedd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf mewn ymateb i strategaeth cynllunio gweithlu gwasanaeth cyhoeddus integredig ar y cyd.
- o. Archwilio ymhellach y cyfleoedd ar gyfer tai cynaliadwy a datblygiadau ynni adnewyddol gydag arian cymunedol cysylltiedig.
- p. Datblygu a darparu Cynllun Marchnata'r Cymoedd, gan hybu ein Cymoedd fel man i fyw, gweithio a chwarae ynddynt.
- q. (Y tymor canolig) Annog cyfleoedd ar gyfer datblygu ac adnewyddu wrth i'r Fargen Ddinesig ddarparu swyddi ac elw ar ei fuddsoddiadau, yn cynnwys denu gwestai.
- r. Cynorthwyo datblygiad economi glân.
- s. (Yr hirdymor) Economi cynaliadwy, egniol sy'n ehangu, gyda chyfraddau cyflogaeth sy'n gyfartal â chyfartaledd y DU.
- t. (Yr hirdymor) Diwydiant twristiaeth bywiog sy'n denu pobl o bell ac agos i fwynhau ein hamgylchedd naturiol, ein hanes a'n diwylliant.

Mae eich asesiad o lesiant economaidd yn nodi cymhlethdod twf economaidd a'r heriau sy'n wynebu gwahanol fannau o'r sir. Er y bydd yna resymau lluosol dros yr amddifadedd a brofir mewn rhai rhannau a dim atebion hawdd, mae yna gamau y gallech eu cymryd fel BGC i gryfhau cydnerthedd yr ardaloedd hyn ac annog twf economaidd ac adfywiad. Rhaid i chi ystyried pa rôl y gallwch ei chwarae fel arweinyddion y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol a dylech werthfawrogi'r dylanwad y gallwch ei gael ar drefniadau partneriaethau a sefydliadau eraill yng Nghymru. I gymryd camau tuag at facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant a gwella llesiant economaidd, bydd angen i chi fod yn ddewr pan fyddwch yn creu cronfa o adnoddau, yn newid polisiau ac yn cymryd risgiau drwy roi cynnig ar ymagweddau gwahanol. Bydd angen i chi gyfleu'r newidiadau hyn o fewn pob un o'ch sefydliadau. Bydd angen i chi fod yn glir am y modd yr ydych wedi myfyrio ar y diffiniadau llawn o bob un o'r nodau llesiant, yn cynnwys y nod ar gyfer Cymru ffyniannus. I wneud hyn mae angen i chi dwrio'n ddyfnach i'r data a gwneud mwy o ddadansoddiad o'r hyn a olyga hyn i Gwm Taf - lle mae lle ar gyfer arloesi; economi carbon isel, a'r potensial i sicrhau swyddi gweddus.

Mae'r saith maes ar gyfer newid a nodir yn y Ddeddf yn fan cychwyn ar gyfer yr effaith y gallech ei gael, sef cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio gweithlu, caffael, asedau, rheoli perfformiad a risg, y gweithgareddau cyfundrefnol craidd, lle byddai defnyddio'r pum dull o weithio'n sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n fframio'r modd yr ydych yn gweithio. Dylech weld y rhain fel cynllun penodedig ar gyfer llwyddiant y BGC. Rwyf yn falch eich bod eisoes yn ystyried eich ymagwedd ar y cyd tuag at gynllunio gweithlu. Sut fedr eich gweithdrefnau caffael helpu i gwrdd â'r saith nod llesiant cenedlaethol? Sut fedr eich polisiau

sefydliadol ymroi i helpu busnesau lleol cynaliadwy? Wrth gyfrannu tuag at leihau eich allyriadau, sut fedr cynorthwyo busnesau lleol helpu i leihau cludo nwyddau gan edrych ar ddatblygu cynaliadwy ehangach, nid yn unig werth economaidd? Mae [Fforwm y Dyfodol](#) wedi cyhoeddi adroddiadau ar hyn ac mae fy swyddfa'n gweithio gyda [Gwerth Cymru](#) i dreialu caffael cynaliadwy yng nghyd-destun y Ddeddf.

Fel y nodais uchod, bydd yn hollbwysig bod y camau y byddwch yn eu cymryd wedi eu hintegreiddio ar draws blaenoriaethau ac amcanion eraill. Mae'r amgylchedd yn ased ar gyfer eich economi lleol a dylid annog twristiaeth gynaliadwy. Mae [Essen yn yr Almaen](#) yn debyg i Gwm Taf, yn y ffaith ei bod wedi ei hadeiladu ar y diwydiant glo a dur, a gafodd effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Nawr bod yr awdurdodau wedi ystyried pa mor wyrdd yw ei dinas, mae hyn yn dwyn twristiaeth, trigolion newydd a busnesau newydd dirifedi. Sut fedr wch chi ennyn ymgyfraniad cymunedau ar gyfer darganfod llwybrau teithio; creu cyfleoedd busnes lleol bach a mawr? Gall annog ffocysu ar ddiwylliant ac iaith yr ardal hefyd eich helpu i facsimeiddio eich cyfraniad i'r holl nodau. Sut fedr eich polisiau hyrwyddo cydraddoldeb mewn busnes ac ymroi i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ardal. Gwnaeth Alun Davies AC ddatganiad yn ddiweddar ar [ariannu ar gyfer tyfu busnesau bach dwyieithog](#) er mwyn cynyddu amlygrwydd Cymraeg yn ein cymunedau. Wrth ymroi i alluogi entrepreneuriaeth a thwff, beth am gyflwyno mentrau sy'n mynnu bod pobl yn sefydlu mentrau cynaliadwy sy'n magsimeiddio eu cyfraniad i'r saith nod llesiant?

Rydych chi hefyd yn gyfrifol am lawer o ystâd y sector preifat. Dylid ystyried sut yr ydych yn cynllunio, dylunio a lleoli eich datblygiadau yn y dyfodol, adeiladau, seilwaith a manau agored cyhoeddus a chymunedol eraill (fel rhan o'ch Cynllun Datblygu Cymunedol). Mae'r adroddiad '[Closing the Circle](#)' ar yr economi cylchol ac 'Amgylchedd Cymru' a ysgrifennwyd gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, yn ddefnyddiol ac yn rhoi enghreifftiau ymarferol lle gall y sector cyhoeddus liniaru gwastraff ac adnoddau ym mhrosiectau'r dyfodol a chael manteision economaidd. Gallwch hefyd gael eich ysbrydoli gan rai o'r prosiectau a grybwyllwyd yng [Ngwobrau Adeiladu Arbenigrwydd](#), megis Ystafell Ddosbarth Weithgar. Mae ystyried pa mor 'wyrdd' yw'r adeiladau hyn, yn nhermau effeithlonrwydd ynni ac adeiladwaith cynaliadwy, yn fanteisiol i chi fel BGC. Mae [adroddiad diweddar Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru ar seilwaith gwyrdd](#), yn amlinellu sut mae seilwaith gwyrdd yn darparu ystod eang o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol profedig, pendant a chost-effeithiol. Mae gan [Gomisiwn Dylunio Cymru](#) hefyd astudiaethau achos ac adnoddau ar ddylunio sy'n ffocysu ar ddefnyddwyr, yn magsimeiddio effeithlonrwydd ynni ac ymddengys ei fod wedi gwella'n arwyddocaol adferiad cleifion.

Mae gennym ymrwymadau clir i gwrdd â hwynt yn nhermau lleihau allyriadau carbon, Mae'r DU wedi addo y byddir yn gwaredu allyriadau carbon yn gyfangwbl erbyn 2050 ac mae pob un o Lywodraethau Cymru wedi addo creu rhagor o swyddi gwyrdd. Ond er bod Cymru yn fan â photensial enfawr ar gyfer darparu ynni naturiol, dim ond 10% o drydan Cymru yn 2013 a ddarparwyd drwy ynni naturiol. Llynedd, cynhyrchodd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cymru'r adroddiad '[Dyfodol Ynni Clyfar i Gymru](#)' gyda 19 argymhelliad ar y modd y gallai Cymru drawsnewid ei hymagwedd tuag at ynni. Yn fwy diweddar, mae Ynni Clyfar y DU wedi cynhyrchu'r adroddiad '[A Smart Energy Future for Rural Areas](#)' sy'n rhoi enghreifftiau ac astudiaethau achos o ardaloedd gwledig ar draws y DU sydd wrthi'n cyflawni'r trawsnewid hwnnw. Mae prif seminar [Fforwm Polisi](#)

[Cymru](#) i'w chynnal ar 7fed Rhagfyr eleni, gyda ffocws ar flaenoriaethau ar gyfer polisi ynni, tyfu'r sector yng Nghymru a chynyddu buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

Mae Prifddinas Ranbarth Caerdydd yn gyfle cyffrous i Dde Cymru, ond yn y gorffennol mynegais fy mhryder fod y fargen yn cael ei dwyn yn ei blaen gyda'r rhai hynny sy'n ymgyfrannu ynddi yn gweld y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel rhywbeth yr ydych yn asesu eich gweithrediadau yn ei herbyn, yn hytrach nag ar gyfer llunio sut mae pethau'n cael eu cynllunio a'u cytuno. Rydych yn chwarae rôl ganolog wrth lywio'r cyfleoedd hyn fel prifddinas sy'n elwa o'r buddsoddiad. Buaswn yn eich cyngori, fel pobl sydd mewn sefyllfaedd o arweinyddiaeth, i ddylanwadu ar drafodaethau presennol gan gadw mewn golwg lesiant economaidd, amgylcheddol cymdeithasol a diwylliannol pobl ledled y rhanbarth. Mae Sefydliad Joseph Rowntree'n amcangyfrif bod tloidi'n costio £2.2 biliwn y flwyddyn i'r rhanbarth cyfan. Ychydig o effaith a gaiff cynyddu Cynnyrch Domestig Gros ar leihau anghydraddoldebau, ac mewn wyth o bob deg o ardaloedd Awdurdod Lleol yr ardal, mae tloidi plant yn uwch na chyfartaledd Cymru. Felly, byddai dehongli gwerth y Ddinas Ranbarth fel un economaidd yn unig yn anghywir. Ydy, mae hwn yn gyfle economaidd cadarnhaol ond sut fedrwn ni fod yn gytbwys yn ein cyfrifoldebau i ddatblygu dinas ranbarth sy'n gynaliadwy ac sy'n rhoi pobl yn y canol. Gobeithio fod [fy llythyr i'r rhai a ymgyfrannodd yn ystod Rhagfyr 2016](#) yn rhoi peth cyngor i chi ar y mater, a [hefyd yn ddiweddar gwneuthum sylw mewn ymateb i adroddiad](#) diweddar Dr Mark Lang a'r Athro Terry Marsden "[Re-thinking Growth: Toward the Well-being Economy.](#)" Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi wrth eich cyngori ar y materion hyn.

Darganfu'r London School of Economics mewn [adolygiad a wnaethpwyd ganddynt i Sefydliad Joseph Rowntree](#) bod plant mewn teuluoedd incwm-is yn profi canlyniadau gwaeth yn wybyddol, yn gymdeithasol-ymddygiadol ac yn eu hiechyd. Yn hollbwysig, dangosodd yr astudiaeth hon, bod hyn, yn rhannol, oherwydd eu bod yn dlotach, nid yn unig oherwydd bod incwm isel yn cydberthyn i nodweddion eraill yn y cartref neu nodweddion rhieni. Sut fedr y BGC gydweithio gydag eraill i wella llesiant economaidd teuluoedd ar draws y rhanbarth? Sut y gellir ffocysu'n arbennig ar y cymunedau mwyaf difreintiedig? A yw'r Parthau Cymunedol yn gyfleoedd ar gyfer treialu dulliau arbennig o weithio? Tra bod darparu cyfleoedd i bobl ddysgu a datblygu yn beth da iawn, galluogi pobl i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn yw'r peth pwysicaf. Felly, buaswn yn eich cyngori i dwrio'n ddyfnach i'ch data yma a deall y darlun cyflawn. Gofynnwch i chi eich hunain, beth fyddai'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddysgu a datblygiad pobl ifanc drwy gydol eu bywydau?

Beth arall sy'n effeithio ar gyfleoedd pobl yn eu bywydau y gallech chi, fel gwasanaethau cyhoeddus, eu hatal? Er enghraifft, comisiynwyd Social Finance gan Gyngor Dinas Newcastle i dwrio'n ddyfnach i'w helpu i fynd i'r afael â phroblem NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant). Tra bo ffocws traddodiadol yn edrych ar gyraeddiadau TGAU, yr hyn a ddengys y dadansoddiad hwn yw nad cyflawniadau academiaidd mewn gwirionedd yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol o bell ffordd, gan ddangos yn hytrach bod 67% o rai rhwng 17-19 mlwydd nad oeddent mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant wedi dod o blith y 25% o rai 17 - 19 mlwydd oedd, a oedd, yn ystod eu plentyndod, wedi cael cysylltiad nifer o weithiau â'r gwasanaethau cyhoeddus. Dangosodd yr ymchwil bod y rhai oedd wedi cael cyn lleied â chwe rhyng-gysylltiad â'r gwasanaethau cyhoeddus wedi treulio tair gwaith gymaint o amser allan o addysg neu hyfforddiant. Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod edrych ar y mater mewn dull mwy holistig yn egluro'r camau y gallwch eu cymryd fel BGC i wireddu eich amcanion.

Sut ydych chi wedi meddwl am gyfleoedd hirdymor economaidd yng Nghwm Taf? Mae swyddi sy'n bodoli yn awr yn rhai nad oedd neb wedi clywed son amdanynt pan oeddwn i yn yr ysgol, a bydd hyn hefyd yn wir am ein plant. Ar hyn o bryd, mae eich ymateb i'r economi sy'n tyfu yn seiliedig ar dybiaethau'r ganrif ddiwethaf, sef bod pobl yn teithio i'r gwaith ac yn gwneud y swyddi sy'n bodoli ar hyn o bryd yng Nghasnewydd, Caerdydd a Bryste. Mae adroddiad ['Future of Work'](#) yn rhagweld y bydd plant sy'n cychwyn yr ysgol heddiw yn gweithio mewn swyddi nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd. Sut fedrwn chi weithredu yn awr ar gyfer yr hirdymor ac ymroi i sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau a fydd yn addas ar gyfer y dyfodol? Pa sgiliau bywyd y gall y bydd angen i'ch plant eu cael i fod yn llwyddiannus yn y dyfodol? Mae'r adroddiad [Dyfodol Gwaith](#) hefyd yn awgrymu bod gwaith seiliedig ar brosiectau yn debygol o ddod yn fwy eang, gyda sgiliau fel creadigrwydd, cysylltedd, cyfathrebu a datrys-problemau yn llawer pwysicach yn y dyfodol na gwybodaeth benodol fel y nodir yn adroddiad diweddar. Mae gwaith tîm, cyfathrebu a hyder mor werthfawr i bobl ifanc â graddau da pan fyddant yn cychwyn gwaith, fel y nodwyd yn [adroddiad diweddar Ymddiriedolaeth y Tywysog 'Results for Life'](#). Sut ydych chi'n cynllunio i ennyn ymgyfraniad pobl o bob rhan o Gasnewydd i chwilio am eu cyngor ar greu cyfleoedd? Sut fedr eich sefydliadau gynnig prentisiaethau i bob oed i ddysgu'r sgiliau hyn?

[Yn ôl McKinsey](#), gallai technoleg awtomeiddio 45 y cant o'r tasgau y telir pobl i'w gwneud ar hyn o bryd - sut ydych chi wedi ystyried yr effaith a gaiff yr awtomeiddio hyn ar lawer o'r rolau presennol? Mae hwn yn gyfle ond hefyd o bosib yn risg, ac fel yr [awgrymir yn yr erthygl](#) mae gennym gyfrifoldeb i gydnabod hyn a meddwl am y manteision. Sut fedrwn chi weithredu nawr, fel darparwyr gwasanaeth cyhoeddus, i annog dysgu a swyddi yn yr economi sylfaenol, sy'n ymwneud â gofal lleol, manwerthu a'r diwydiannau bwyd, sy'n llai tebygol o gael eu hawtomeiddio yn y dyfodol ac yn llesol i'r economi lleol? Mae [adroddiad diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree](#) yn amlygu gwerth yr economi cymdeithasol wrth greu swyddi, cryfhau sgiliau a chyflogadwyedd. Sut ydych chi wedi ystyried y tueddiadau hirdymor hyn wrth bennu eich camau a galluogi pobl i addasu eu sgiliau ar gyfer ennill bywoliaeth yn y dyfodol?

Dylid ystyried pwy arall a allai fod ag angen i chi gydweithio gyda hwynt wrth ddatblygu'r amcanion drafft, megis ysgolion, busnesau, Coleg y Cymoedd, prifysgolion a mentrau cymdeithasol. Pa gyfrifoldebau cymdeithasol a fabwysiadwyd gan y sector preifat yn yr ardal? Sut mae busnesau yn dod at ei gilydd i sbarduno newid cadarnhaol, hirdymor ac a oes gan y BGC unrhyw ddylanwad yn hyn o beth? Pa gyfleoedd y gellid eu cynnig i fentrau cymunedol newydd drwy gydweithio rhwng y BGC a'r sector preifat a darparwyr addysg? Pa ymchwil sydd wedi cael ei wneud am yr economi lleol? Sut fedrech annog busnesau lleol i ddefnyddio'u cyfrifoldebau cymdeithasol a galluogi gwell dysgu ar gyfer pobl iau a phobl hŷn?

Mae yna lawer o FGCau yn drafftio amcanion a chamau tebyg, yn cynnwys Powys, Caerdydd, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Fynwy a Chaerffili.

Gobeithiaf eich bod o'r farn fod y cyngor hwn yn ddefnyddiol i chi wrth i chi symud ymlaen i gyhoeddi eich cynllun llesiant ar gyfer ymgyngori ffurfiol. Os gwelwch yn dda cysylltwch â fy nhîm os yr ydych chi angen manylion cyswllt pellach ar gyfer unrhyw un o'r sefydliadau a'r adroddiadau a grybwyllwyd yn y llythyr hwn.



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Rwyf hefyd yn dysgu'r ffordd orau o gynghori, cynorthwyo a monitro sut mae cyrff cyhoeddus yn ceisio defnyddio'r pum dull o weithio a maximeiddio'u cyfraniad i'r saith nod llesiant, felly buaswn yn croesawu adborth oddi wrthyd chi, eich swyddogion cynorthwyol a Phwyllgor Craffu BGC Ceredigion ar sut yr wyf wedi dewis mynd ati i ymdrin â'r ddyletswydd statudol hon a'r cyngor yr wyf wedi ei roi.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynllun llesiant drafft ac os gwelwch yn dda cadwch mewn cysylltiad â mi a fy nhîm.

Dymuniadau gorau,

Sophie Howe



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT

cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales

Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT

contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales